Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Sir Fflint a'r Cyffiniau 2007

Cymdeithas y Cyfreithwyr
The Law Society

Elfyn Llwyd AS

# Clorian Cyfiawnder:

## Y Sialens Gyfoes

Cymdeithas y Cyfreithwyr
The Law Society

# ELFYN LLWYD

*Aelod Seneddol Meirionnydd Nant Conwy*

Ganwyd ym Metws y Coed yn 1951 ac addysgwyd ef yn Ysgol Syr Thomas Jones Amlwch ac Ysgol Ramadeg Llanrwst ac Ysgol Dyffryn Conwy. Graddiodd gydag anrhydedd yn y gyfraith yng Ngholeg Prifysgol Cymru Aberystwyth, ac wedyn astudiodd yng Ngholeg y Gyfraith, Caer.

Cymhwysodd fel cyfreithiwr yn 1977 ac yn 1978 gwnaed ef yn bartner yng nghwmni Guthrie Jones & Jones, Y Bala a Dolgellau. Ym 1990 ef oedd Llywydd Cymdeithas Cyfreithwyr Gwynedd. Ym 1997 galwyd ef i'r Bar ac y mae'n aelod o Siambr 1 Stanley Place, Caer.

Ers 1992 bu'n Aelod Seneddol dros Feirionnydd Nant Conwy ac Arweinydd Seneddol Plaid Cymru ers 1998. Mae'n aelod o Bwyllgor Seneddol Safonau a Breintiau ac yn Is-Gadeirydd Grŵp Aml-Bleidiol Undeb PCS a'r Undebau Llysoedd a Chyfiawnder.

Mae'n hoff o bysgota, rygbi a chadw colomennod yn ei amser hamdden. Urddwyd ef i'r wisg wen gan yr Orsedd ym 1998.

## "CLORIAN CYFIAWNDER : Y SIALENS GYFOES"

Braint oedd derbyn gwahoddiad i draddodi'r araith hon heddiw. Araith i goffàu un o fawrion cenedl y Cymry. Gobeithiaf yn wir y byddaf yn deilwng o'r anrhydedd hon.

Ar ôl graddio yn y gyfraith yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, cefais gyfle i gwblhau erthyglau gyda'r ffyrm enwog William George a'i Fab, (Lloyd George & George) a buan iawn y dois i sylweddoli nad ffyrm gyffredin mo hon. O fewn ychydig ddyddiau deuthum ar draws flwch o bapurau a oedd yn cynnwys yr achos enwog Llanfrothen ble y sefydlwyd, drwy ddyfarniad Tŷ'r Arglwyddi yn y pen draw, yr hawl i unigolyn gael claddedigaeth mewn mynwent Eglwys waeth beth oedd ei grefydd neu ei chrefydd. Afraid yw dweud bod yr achos yma yn bwysig, nid yn unig yn hanes Cymru, ond Ynysoedd Prydain hefyd. Yn yr achos hwnnw tad y diweddar Dr W R P George - sef Dr William George oedd y cyfreithiwr a wnaeth y gwaith cefndirol manwl, a'i frawd, Mr Lloyd George fel eiriolwr. Mr Lloyd George y cyfreithiwr a'r gwleidydd.
Ychydig a feddyliais y bryd hynny, yn ddwy-ar-hugain oed, mae o fewn cwmpawd y gyfraith a gwleidyddа byddwn innau yn troi – ond wrth gwrs, heb gyrraedd yn agos i uchelfannau'r Dewin o Ddwyfor.

Braf yw cofio cysylltiad y diweddar Dr W R P George a'r Eisteddfod Genedlaethol. Olynodd y bardd-gyfreithiwr ei dad Dr William George bardd gyfreithiwr arall – i'r swydd o Gyfreithiwr Mygedol yr Eisteddfod Genedlaethol. Braf hefyd yw nodi bod mab Dr W R P George, sef Philip George, ei hun heddiw yn Gyfreithiwr Mygedol i'r Eisteddfod Genedlaethol. Dyna wasanaeth clodwiw gan y teulu hwn.

Cofiaf hefyd achlysur a esgorodd ar greu Cymdeithas Cyfreithwyr Gwynedd. Roedd Dr George newydd gipio coron Eisteddfod Genedlaethol Caerfyrddin

ac i ddathlu hynny daeth amryw o gyfreithwyr amlwg at ei gilydd i drefnu cinio, ac yn eu mysg y diweddar Harry Evans Jones a Threfor Morgan. Roedd y cinio yn dra llwyddiannus a thrwy ymdrechion glew Trefor ac eraill fe sefydlwyd y Gymdeithas. Cymdeithas y cefais y fraint o fod yn Ysgrifennydd iddi ac yn ddiweddarach yn Llywydd ohoni.

Ar un achlysur rwy'n cofio teithio i Lundain gyda'r Llywydd ar y pryd, Mr Huw Elwyn Jones, Bangor i weld yr Arglwydd Ganghellor – Yr Arglwydd MacKay. Aethom yno i drafod ein gwrthwynebiad chwyrn i rai newidiadau i'r gyfraith yn ymwneud a thrawsgludo tir, ac roeddem i fod gydag o am dri-chwarter awr ond fe aeth y cyfarfod yn awr a hanner ac fe newidiodd ei feddwl!

Tydi pethau ddim yn newid mor rhwydd fel arfer, coeliwch fi.
Teilwng yw nodi bod y Dr W R P George wedi bod yn gefnogol iawn i'r Gymdeithas o'r dechrau er gwaethaf ei brysurdeb.
Ni welais unrhyw un, - yn gyfreithiwr neu fargyfreithiwr efo gwell gwybodaeth am gynnwys "Y Llyfr Gwyn" ac fe ddysgais lawer iawn ganddo, a chan Mr R T Price hefyd. Mr R T Price yn arbenigo mewn cyfraith teulu ac eirioli yn y Llysoedd Ynadon a Llys y Goron. Mae'n nyled i yn fawr i'r ddau ohonynt fel ei gilydd.

Yn wir Mr Robert T Price ddaru fy ngoleuo ar sut yr oedd edrych fel pe taswn yn brysur o hyd drwy gario ffeil o bapurau o dan fy mraich. Deallaf mai yn yr awyrlu, tra yn cyflawni Gwasanaeth Cenedlaethol y dysgodd o hynny.
Rwyf am gymryd fel fy nhestun heddiw cydbwysedd cydrhwng hawliau a rhyddid yr unigolyn a diogelwch a buddiannau y wladwriaeth.
Mae'n debyg mai eicon mwyaf y gyfraith yw'r glorian, ac mae'r glorian yn amlwg iawn heddiw o ystyried y pwnc yma.

Tua chwe blynedd yn ôl fe grëwyd term newydd - "Rhyfel yn erbyn terfysgaeth" ac i'r rhai ohonom sydd yn arfer trin geiriau yn ein galwedigaeth fe oedd yr ymadrodd yna yn un chwithig. Sut, medde chi, y gallasai un wladwriaeth fynd i ryfel yn erbyn cysyniad yn unig?

Yn fy marn i, ymadrodd ydoedd a ddeilliodd o fraw gwirioneddol yn hytrach na rhyw fwriad a grëwyd mewn gwaed oer.

Ond y mae'r parhad i'w ddefnyddio yn amheus a dweud y lleiaf. Ddiwedd Mai eleni cyhoeddodd AMNEST Adroddiad yn dwyn y teitl *"2007: Cyflwr Hawliau Dynol Y Byd"*. Yn yr Adroddiad yma mae Ysgrifennydd Cyffredinol Amnest, Irene Khan, yn dweud bod ofn mewnfudwyr, ofn troseddu, a therfysgaeth, yn cael eu defnyddio gan wladwriaethau i gywasgu hawliau dynol sylfaenol.

Mae hi yn mynd ymlaen i ddweud bod rhoi diogelwch i un garfan o bobl ar draul hawliau eraill yn sicr o fethu, a bod llawer o fesurau a deddfau gwrth-derfysgol wedi methu oherwydd nad ydynt yn ddigon ystyrlon o hyn, a'u bônt wedi, ac rwy'n dyfynnu yn uniongyrchol *"gwneud nemor ddim i leihau bygythiadau trais....... tra yn niweidio'n ddifrifol hawliau dynol a rheolaeth cyfraith"*.

Credaf bod y geiriau yna yn anffodus yn adlewyrchiad o'r hyn sydd yn digwydd yn Ynysoedd Prydain ers rhai blynyddoedd bellach. Er fod y Llywodraeth wedi penderfynu na fydd Gweinidogion bellach yn defnyddio'r term "*rhyfel yn erbyn terfysgaeth*" erys yr angen i sicrhau ein bod yn parhau i deimlo dan fygythiad.

Rhaid cofio mae eiddo i ni - pob un ohonom - yw rhyddid, ac eto y Llywodraeth sy'n barod i'w wanychu o, ac mae'r dasg honno'n llawer yn haws yn erbyn y cefndir o fygythiadau terfysgol a threisiol. Gŵyr pob un

ohonom bod polisïau Llywodraeth - pa un bynnag y bo - yn tueddu i gael eu creu yn y wasg tabloid, ac mai anodd iawn yw cael trafodaeth ystyrlon ar bolisi penydiol (*penal*), heb suddo yn ddwfn i gors gwleidyddiaeth arwynebol.

Rwy'n dadlau bod y llyffethair yna hefyd yn bodoli ym maes diogelwch y wlad, neu'r weinyddiaeth, ac un o'r elfennau mwyaf amlwg yw creu'r ofn yma y soniais amdano.

Mae'n wir i ddweud, serch hynny, bod rhyfel Irac wedi gwneud bywyd yn Ynysoedd Prydain yn fwy peryglus, ond tydi ymateb y Llywodraeth yn nhŷb llawer ar draws y sbectrwm gwleidyddol ddim yn mynd i esmwytho'r bygythiad yna - ond yn hytrach, efallai, dwysau'r broblem.

Nid wrth erydu hawliau sifil y mae ymateb yn effeithiol i'n problemau cyfoes. Mae digon o sôn am y cydbwysedd rhwng rhyddid yr unigolyn a diogelwch cymdeithas. Wrth gwrs, mae hyn yn bwysig ac fe ddylai fod wrth wraidd y ddadl. Ond y mae llawer heddiw yn credu bod y glorian wedi disgyn yn rhy drwm ar ochr buddiannau'r wladwriaeth - ar draul hawliau gwarantedig y buom yn eu harddel ers canrif a mwy - hawliau a rhyddid oedd yn peri i ni sefyll allan fel enghraifft o system wâr oedd yn rhoi lle i fuddiannau unigolyn ochr yn ochr â buddiannau'r gymdeithas neu'r wladwriaeth. Dyna <u>oedd</u> y sefyllfa fodd bynnag.

Gwelsom bod cadw unigolion dan glo heb wynebu Llys wedi bod yn ymfflamychol yn Iwerddon, ac wedi peri dwysedd yn y problemau yno yn y '70au a'r '80au. Nacàu hawliau oedd yn warantedig ac yna yn cynyddu nifer y rhai sy'n troi at drais. Ymddengys nad yw'r Llywodraeth yn dysgu gwersi hanes - ac fe all y methiant hwnnw fod yn ddrud iawn.

Cofiwn am Lysoedd Diplock di-reithgor yn Yr Iwerddon, ac yn awr mae cais arall i gychwyn y broses o erydu'r hawl i dreial drwy reithgor.

Wrth gyffwrdd â'r angen i warchod ein sustem o dreialon rheithgor hoffwn achub ar y cyfle hwn i alw unwaith yn rhagor am newid yn y gyfraith i sicrhau treialon drwy gyfrwng y Gymraeg gerbron rheithgorau Cymraeg eu hiaith.

Yn ystod y trafodion ar y Mesur Iaith ym 1993 cynigiais welliant i'r perwyl hwn ac fe'i collwyd o un bleidlais yn unig. Anhygoel yw'r ffaith ein bod yn parhau i aros am y newid hwn. Galwodd Mr Ustus Roderick Evans am hyn yn ei araith rymus yn yr Eisteddfod flwyddyn yn ôl (Araith Flynyddol Cymdeithas Cyfreithwyr 2006). Ategwyd ei alwad gan yr Arglwydd Ustus Thomas mewn araith bwysig arall yng Nghaerdydd ym mis Ionawr eleni. (Legal Wales : "Some reflections on our future tasks" 19.01.07). Yn ei araith dywed yr Arglwydd Ustus Thomas ei fod yn gofidio nad yw Llysoedd y Goron wedi efelychu'r hyn sydd yn digwydd mewn Llysoedd Sifil a'r Llysoedd Ynadon ble y mae achosion llawn drwy gyfrwng y Gymraeg yn hawdd a di-rwystr.
Cyfeiria hefyd at yr hyn mae o yn ei alw yn "mantra" bod rheithgorau Cymraeg eu hiaith yn torri ar draws yr egwyddor o ddewis rheithgor ar hap.

Yn ddiweddar, bûm yn trafod hyn gyda Barnwr Uchel Lys arall a oedd yn honni bod yna anawsterau gweinyddol sylweddol mewn dod a rheithgorau Cymraeg i fod. Ni chefais unrhyw engraifft na dadl nad oedd iddi wrth ddadl gryfach i'r gwrthwyneb.

Erys y mater hwn fel cysgod ar yr holl waith da y mae barnwyr y gylchdaith yma wedi cyflawni ym maes dwyieithrwydd dros y ddegawd ddiwethaf. Mae'n rhaid i ni symud ar y mater hwn.

A symud gwnaeth fy nghyfaill Hywel Williams, A.S.
Mae o wedi paratoi Mesur syml i unioni'r cam hwn. Gobeithio, yng ngoleuni'r "wleidyddiaeth newydd cynhwysol", yng Nghaerdydd y gwelwn fynd a'r hen faen hwn i'r wal cyn bo hir.

I'r rheiny ohonom yn Nhŷ'r Cyffredin sydd yn poeni am dreialon rheithgorau, mae'n anodd cael y Senedd i ddeall nad ceisio cadw rhyw fraint fach yn ôl i ni fel cyfreithwyr a bargyfreithwyr yw'r gwrthwynebiad yma. Mae rheithgorau yn adlewyrchiad teg o'r gymdeithas ac yn sylweddol amlach na pheidio mae nhw yn gwneud y peth iawn, a chyfiawnder yn cael ei weithredu.

Anodd yw gweld rhesymeg y Llywodraeth yn hyn o beth. Dim ond tua 2% o achosion troseddol sy'n cael eu traddodi i Lys y Goron. Rhyw ddeg o dreialon twyll hir y flwyddyn. Ydi hyn yn gyfiawnhad i gychwyn datod cwlwm cyfiawnder? Oherwydd unwaith y mae'r cwlwm wedi datod buan iawn y bydd yn diflannu.

Dros y ddeng mlynedd diwethaf yma mae miloedd o droseddau wedi eu creu. Cofiaf ofyn i'r Prif Weinidog rhyw flwyddyn neu ddwy yn ôl a fuasai yn fodlon rhoi *aide memoire* yn y Llyfrgell yn Nhŷ'r Cyffredin i'n hatgoffa o faint o droseddau yr ydym wedi eu creu bob wythnos. Gallasai fod yn chwerthinllyd pe bai'r sefyllfa ddim mor ddifrifol.

Gallwch droseddu heddiw am gynnal protest heddychlon yng Nghanol Llundain os nad oes gennych ganiatâd i wneud hynny. Mae pobl sydd wedi gwrthdystio'n gwbl dawel a heddychlon wedi cael eu harestio am aflonyddu a bygwth yr heddwch.

Ceisiwyd tawelu protest gwrthryfel Brian Haw y tu allan i'r Senedd drwy ddeddfu yn uniongyrchol.

Bûm yn aelod o Bwyllgor Sefydlog y Ddeddf Digwyddiadau Sifil (Civil Contingencies Act), ac mae honno yn Ddeddf boenus a pheryglus. Rhoddir o dan y Ddeddf honno, yr hawl i Weinidog y Llywodraeth, gan gynnwys Chwip, yr hawl i weithredu ar argyfwng. Mae diffiniad argyfwng yn fater i'r Gweinidog. Mae'r grymoedd yn ddychrynllyd. Gallai'r Llywodraeth chwalu eich tŷ a'ch cartref heb unrhyw hawl i iawndal os argymhellir hynny ar air Chwip y Llywodraeth. Mae hawl i ddod a'r fyddin i weithredu yn syth pe bai gennym broblem fel y protestiadau tanwydd eto.

Yn Rhagfyr 2003 cyhoeddodd Amnest Rhyngwladol adroddiad beirniadol iawn o bolisi'r Llywodraeth o gadw pobl sydd ddim yn Brydeinwyr dan glo heb dreial – gan alw'r system yn *"Guantanamo Bay Prydeinig"* Yn yr adroddiad maent yn ein hatgoffa nad yw'r Ysgrifennydd Cartref yn fodlon ymwrthod yn llwyr â dibynnu ar wybodaeth sydd wedi ei ganfod drwy arteithio.

Ble yn y byd ydan ni'n mynd? Cefnogwyd yr adroddiad gan lu o ffigyrau o'r byd crefyddol, a ffigyrau amlwg o'r byd cyfreithiol sy'n datgan bod carcharu heb dreial yn wrthun i egwyddorion cyfiawnder, triniaeth gyfartal ac hefyd rheolaeth cyfraith - ac erfyniwyd ar y Llywodraeth i roi'r personau yma gerbron Llys neu eu gollwng yn rhydd

Mae'r unigolion yma yn cael yr hawl i apelio i'r Llys Arbennig – *Special Immigration Appeals Commission – S.I.A.C.* – ac mae ganddynt yr hawl i gael eu cynrychioli gan un o ddwsin o fargyfreithwyr yn unig. OND – toes gan y bargyfreithwyr yma ddim hawl i siarad gyda'r unigolion yma i gael eu barn ar dystiolaeth yn eu herbyn. Dim rhyfedd felly bod amryw o gyfreithwyr wedi ymddiswyddo o'r panel hwn. Ymddiswyddodd Ian Macdonald C.F., ac yn ei eiriau ef "*being some kind of fig leaf of respectability and legitimacy to a process which I found odious*".

Fel y mae'r Athro Conor Gearty, o Siambrau Matrix gyda llaw, wedi dweud deng mlynedd yn ôl bellach, "*ni ddylid taflu'r llyfr rheolau i ffwrdd oherwydd ymgais i ddial am erchyllter gweithrediadau terfysgol, gan fod y rheolau yma wedi esblygu drwy'r dair egwyddor holl bwysig sef cydraddoldeb, tegwch ac urddas unigolion*".

Dyma'r egwyddorion pwysicaf dylid glynu wrthynt, ac mae'n rhyfedd meddwl bod yr un Llywodraeth a ddaeth â'r Ddeddf Iawnderau Dynol i rym wedi cefnu ar yr egwyddorion yma o fewn rhyw bedair neu bum mlynedd wedyn.

Wrth gwrs, mae cadw person dan glo heb dreial yn groes i Erthygl 5 o'r Confensiwn Ewropeaidd ac Erthygl 9 o'r Cyfamod Rhyngwladol Hawliau Sifil a Gwleidyddol. Mae'r Llywodraeth yn dadlau nad yw Erthygl 5 yn berthnasol a'i fod yn cael ei ddiystyru - ond ni chaniateir ei diystyru heblaw mewn rhyfel neu sefyllfa ble mae argyfwng yn bygwth bywyd y wlad, ac hyd yn oed wedyn, dim ond cyn belled ag y bo cyfiawnhad iddo.

Fe ddywedodd un o'r Barnwyr yn Nhŷ'r Arglwyddi, Yr Arglwydd Steyn, mewn achos diweddar yn ymwneud â hyn - "*so that people can be locked up without trial when there is no evidence on which they could be prosecuted is not in present circumstances justified*".

Ers canrifoedd mae person cyhuddedig yn cael ei ragdybio i fod yn ddieuog - un o froliannau'r sustem yng Nghymru a Lloegr, ond ers y Mesur Terfysgaeth 2000 mae yna ragdybiaeth o euogrwydd. Mae'n ymhlyg ar y cyhuddedig iddo yntau yn awr brofi y tu hwnt i unrhyw amheuaeth resymol ei fod yn ddieuog - yn gwbl groes i beth fu'r prawf am ganrifoedd, sef i'r Goron brofi ac nid i'r cyhuddedig wneud hynny.

Ymhellach os oes amheuaeth yn unig bod unigolyn yn gysylltiedig â

therfysgaeth gellir diddymu ei ddinasyddiaeth - ac o dan Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 mae gan yr heddlu yr hawl i ddal person yn y ddalfa i'w holi am bythefnos.

Mae'r "hawl i dawelwch" bron wedi mynd – cysyniad a oedd yn cael ei gefnogi gan Llafur pan yn yr wrthblaid. Ac y mae'r Llywodraeth yma wedi ymestyn hyn i blant dan bedair-ar-ddeg oed; hynny yw, os na fydd plentyn yn fodlon i ateb cwestiwn fe fydd gan y Llysoedd yr hawl i ragdybio euogrwydd. Diddorol gweld bod yr unigolion o fewn y Blaid Lafur a oedd yn gwrthwynebu mesurau o'r fath yn awr yn gyfrifol am ddod â nhw ar y Llyfr Statud.

Ond yr oedd yr "hawl i dawelwch" wedi cael ei wanhau yng Ngogledd yr Iwerddon ym 1988.
Hawl pwysig ydoedd wedi ei seilio ar y ffaith fod i'r Wladwriaeth brofi trosedd nid fel arall, ac y mae hwnnw wrth gwrs wrth wraidd ein sustem trosedd.
Trwy'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 mae'r hawl wedi mynd - ac y mae pris uchel i'w dalu am ddistawrwydd gan i'r Llysoedd yn awr fedru tybio y gwaethaf o'r distawrwydd yna.

Mae'r Ysgrifennydd Cartref yn rhoddi hawl i'w hun i ddanfon unigolion oddi yma ar unrhyw amheuaeth ganddo nad yw eu presenoldeb yn cyd-fynd â buddiannau gorau Prydain. Mae hynny yn wrthun, ond beth sy'n gwneud pethau'n llawer gwaeth yw y bydd yr unigolion yma mewn perygl o'u hanfon yn ôl i wledydd ble maent mewn perygl o gael eu harteithio a'u lladd. A hynny mewn ymgais i ddelio â therfysgaeth?

Gwireb yw dweud bod terfysgaeth yn sialens ofnadwy i unrhyw Lywodraeth – ond y mae cyn sicred nad wrth gefnu ar hawliau unigolion y mae'r ffordd i wneud hynny.

Wrth i'r Llywodraeth dramgwyddo yn erbyn rhai carfanau o fewn y gymdeithas mae yna debygolrwydd bod y carfanau rheini yn mynd i deimlo bod y driniaeth yn annheg ac felly mae posibilrwydd real y byddai hynny yn cyfrannu ymhellach at nifer y terfysgwyr dichonadwy. Mae annhegwch yn magu casineb - a chasineb sydd wrth wraidd terfysgaeth bron bob amser.

Un o'r peryglon ar y gorwel yw creu rhyw ail gyfraith "sus" a oedd mor andwyol yn y gymdeithas pan oedd miloedd o bobl groenddu yn cael eu holi gan yr heddlu o hyd a hynny heb achos o ddifrif. Gobeithiaf na welwn yr un patrwm eto yn datblygu a'r garfan Arabaidd yn ein cymdeithas yn cael eu targedu. Yn wir, mae yna beth tystiolaeth bod hyn wedi dechrau yn y dinasoedd mawrion.

Tuedd arall sydd yn peri gofid i lawer ohonom ydi'r ffaith fod y Llywodraeth mor barod i ddod â gorchmynion sifil niferus i'r sustem droseddol er mwyn cyrraedd nôd arbennig. Fel y gwyddom mae'r prawf sifil yn is na'r prawf troseddol, ond y mae canlyniadau gorchmynion yn drwm a phell gyrhaeddol.

Toes gen i ddim cariad at droseddwyr trymion sy'n byw ar drosedd yn aml, yn difetha bywydau cannoedd o bobl. Gwnaed sawl ymgais i rwydo'r rhain yn ddiweddar ond y mae yna berygl gwirioneddol y byddwn yn dal unigolion llai teilwng o'r gorchmynion yma yn y rhwyd. Ystyriwch y Mesur diweddaraf Mesur Trosedd Difrifol 2007. Mae'r Gorchmynion Atal Trosedd Difrifol i fod i ddelio â'r troseddwyr sydd ar y brig - ond yn wir nid ydynt yn debygol o lwyddo yn hyn o beth. Gwell fyddai sicrhau bod y dystiolaeth yn cyfiawnhau mynd â'r achos at Lys troseddol yn y modd arferol. Mae Liberty yn dadlau bod y "short cut" cyfreithiol diweddaraf yma yn mynd i fod yn anheg ac aneffeithiol (LIBERTY - nodiadau gogyfer a'r Ail Ddarlleniad Mehefin 2007). Eto, mae yna bwerau cyffelyb yn barod ac os oes angen i gyfyngu ar symudiadau a gweithrediadau person gellid

gwneud hynny'n hawdd iawn drwy osod amodau ar fechnïaeth cyn mynd â'r achos i dreial. Ymddengys bod y Llywodraeth am gael y canlyniad y mae nhw'n deisyfu waeth pa ffordd yr ânt ati.

Mewn adroddiad diweddar dywedodd y Cyd Bwyllgor Seneddol ar Hawliau Dynol - h.y. Cyd Bwyllgor cydrhwng Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi - "Yn ein gwaith diweddar ar bolisi gwrth derfysgaeth a hawliau dynol rydym wedi tynnu sylw at natur anghynaladwy hir dymor y camau rheoli sydd y tu allan i'r broses droseddol ac sy'n osgoi'r safonau troseddol arferol sy'n bodoli yn y broses droseddol".
(Deuddegfed Adroddiad 2006-07, HL 91/HC 490).

Mae'r feirniadaeth yna hefyd yn dangos un arall o driciau cyson y Llywodraeth sef cael Pwyllgor i ymgynghori ag o ac wedyn pan fydd y Pwyllgor yna yn ddigon haerllug i anghytuno yna anwybyddu'r farn yn llwyr.

Felly, nid wrth lesteirio prosesau cyfraith droseddol y mae mynd â'r maen yma i'r wal. Mae'r prosesau rheiny wedi esblygu dros y canrifoedd i sicrhau tegwch i unigolion ac i sicrhau bod cyfiawnder yn cael ei weinyddu. Gresyn o beth ydi gweld bygythiadau cyson a rheolaidd i'r drefn honno yn ystod y pum, chwe blynedd diwethaf yma. Mi fyddwn i gyd ar ein colled os aiff y broses yma rhagddi ymhellach.

Nid ychwaith wrth ddifrïo'r Barnwyr mae'r ffordd ymlaen. Mae'r duedd honno wedi peri syndod i lawer, ac un o'r pethau sy'n bodoli mewn pob gwlad dotalitaraidd yw Barnwyr sy "wedi eu dofi", ac yn cymryd eu cyfarwyddiadau gan y Llywodraeth.
Mae gennym lawer o le i ddiolch am annibyniaeth ein Barnwyr.

Cymerwch er engraifft ddyfarniadau Mr Ustus Collins yn erbyn rhoi'r hawl i gadw personau dan glo heb ganiatáu treial agored a theg iddynt. Sut fedr

cadw pobl dan glo? - rhwystro iddynt gael hawliau i fynychu'r Llysoedd a chael gweld y dystiolaeth yn eu herbyn fod yn gydnaws a Threfn y Gyfraith. *(Rule of Law).*

Mewn achos arall defnyddiodd Mr Ustus Sullivan y geiriau "camddefnydd grym" mewn achos y llynedd.

Achos yn erbyn yr Ysgrifennydd Cartref yn gwrthod derbyn dadleuon ceiswyr lloches Afghan am iddynt beidio â mynd yn ôl i ddwylo'r Taliban. Meddai, "*cafwyd yma fethiant llwyr i gydymffurfio â'r gofynion perthnasol o'r rheolau gweinyddu sifil ar bob lefel, a methiant i gydymffurfio â'r dyletswydd a'r awdurdod cyhoeddus i gydweithredu â datgelu tystiolaeth yn llawn*".

Geiriau hallt yn wir - ond yn 2004 mewn dyfarniad arall yn Yr Uchel Lys parthed achos o Belmarsh gwnaed cymariaethau â Rwsia oes Stalin, ac hyd yn oed Yr Almaen o dan y Natsïaid.

Dim rhyfedd bod y gwleidyddion a'r Barnwyr ben ben â'i gilydd yn aml y dyddiau yma.

Mae'n rhaid cofio bod natur ac esblygiad pwerau argyfwng yng nghyfreithiau Cymru a Lloegr wedi newid yn aruthrol fel y gwyddom dros yr Ugeinfed Ganrif.

Cychwynwyd gyda Mesur Amddiffyn y Deyrnas 1914. Y Mesur yma ac eraill yn caniatáu pasio rheoleiddiau a oedd yn parhau am gyfnod penodedig yn unig ac i ddibenion arbennig ac yn reoleiddiau pellgyrhaeddol.

Dyna pam y'u cyfyngwyd nhw mewn amser yn y ffordd yna.

Ond yn y ddegawd ddiwethaf gwelwyd symudiad gwahanol. Dim cyfyngiad amser ar y ddeddfwriaeth - yn rhy lydan ac yn llac, ac hefyd dim angen i'r ddeddfwriaeth gael ei hail asesu a'i hadnewyddu gan y Senedd. Felly rydan ni yn byw mewn cyfnod o "argyfwng parhaol".

Bu'r ymateb i derfysgaeth yn un a oedd yn drwm yn erbyn ein hawliau sylfaenol – yr hawliau rheiny sydd yn y Ddeddf Iawnderau Dynol lle gwelsom erydu ar Erthygl 5 – yr hawl i ryddid;
Erthygl 6 – yr hawl i dreial teg;
Erthygl 8 – yr hawl i breifatrwydd;
Erthygl 10 – yr hawl a'r rhyddid i fynegi barn;
Erthygl 11 – yr hawl i gyd gyfarfod
– yr hawl i eiddo preifat (Protocol Cyntaf Erthygl 1).

Ac y mae'r tensiwn yma cydrhwng deddfwriaeth argyfwng ac iawnderau dynol wedi esgor ar lawer i achos yn Llys Strasbourg.
Mae yna ofnau gwirioneddol heddiw bod y pwerau yma yn rhy llydan ac efallai bod y cwestiwn terfysgaeth wedi'i godi i gyfiawnhau gwneud i ffwrdd â rhan o'n hawliau hanesyddol cynhenid a phwysig.
Ond, rwy'n canfod bod y Senedd a'r Llysoedd yn bryderus am y duedd yma.
Bu i Dŷ'r Arglwyddi ddweud bod rhoi unigolion yn y ddalfa heb dreial yn groes i hawliau dan y Confensiwn Hawliau Dynol – gan ddweud hyd yn oed os oes argyfwng mae'n rhaid i'r camrau fod yn gymesur a ddim yn rhagfarnu yn erbyn unigolion.

Erbyn hyn, mae'r Gwir Anrhydeddus Gordon Brown wedi cyhoeddi ei fwriad i ail geisio cael yr hawl i gadw person dan glo am 90 niwrnod heb gyhuddiad. Mae llawer ohonom yn pryderu ynghylch hyn ac yn methu a deall sut y mae gwladwriaethau eraill yn medru ymdopi heb fynd i lawr y llwybr hwn. Mae cyfnod o 90 niwrnod yn gyfystyr â chwe mis yng ngharchar – a hynny heb gyhuddiad wedyn.
Bydd y Llywodraeth yn dadlau unwaith eto bod angen y newid yma - ac ei angen ar frys. Mae hyn yn dod â ni yn ôl at y syniad o greu ofn.

Hyd yma, ar ôl yr holl ddadleuon Seneddol ar y testun hwn nid ydwyf wedi

clywed unrhyw gyfiawnhad rhesymegol i gefnogi'r alwad yma.
Yn yr un gwynt, rhaid i mi ddweud nad ydwyf wedi clywed dadl dda o blaid cardiau adnabod ychwaith. Ceisiwyd dod â'r "ofn" i mewn i'r ddadl honno hefyd. Y gwir plaen ydi na fyddai cardiau adnabod yn cael unrhyw effaith o gwbl ar derfysgaeth fel y gwelwyd yn y drychineb fawr ym Madrid ble yr oedd y personau cyfrifol yn meddu ar gardiau adnabod - pob un ohonynt.

Yn ei llyfr ardderchog sy'n dwyn y teitl "Just Law" mae'r Farwnes Helena Kennedy, C.F., yn cychwyn drwy esbonio'r teitl. Nid dehongliad amlwg mohono. Yn hytrach roedd hi'n paratoi i areithio'n gryf yn erbyn un o'r mesurau rwyf wedi bod yn cyfeirio atynt pan ymwelwyd â hi gan Chwipiaid y Llywodraeth yn Nhŷ'r Arglwyddi wrth iddynt geisio ei pherswadio i beidio â gwrthryfela yn erbyn y Mesur, dywedodd un wrthi - "Dowch Helena, peidiwch â gwrthwynebu'r Mesur *"it's just law"* " - hynny yw dim ond cyfraith ydyw, yn hytrach na chyfraith gyfiawn. Mae hyn yn awgrymu i mi bod Chwipiaid Tŷ'r Arglwyddi yn greaduriaid mor ddi-hid â'u cyfeillion yn y "Lle Arall".

Os mai di-hid yw hynna, yn sicr mae un newid arall yn fwy bwriadol a difrifol. Odditan y teitl "moderneiddio" mae dadleuon Tŷ'r Cyffredin wedi cael eu hamseru, hynny yw, cwtogi bob tro, er mwyn gwneud gwaith y lle yn haws i Aelodau a theuluoedd, meddent, mae'n rhaid newid yr oriau, ac mae'n rhaid amseru popeth a chyfyngu'n llym. Roeddwn yn y Siambr yn ddiweddar pan yn trafod Mesur yn dod yn ol ar Adroddiad i'r Senedd, hynny yw, Report. 'Roedd yna nifer o welliannau ac fe fu llawer o drafod ar welliannau yn y cyfnod Pwyllgor Sefydlog ar y Mesur. Rhoddwyd tair awr yn unig i drafod yr holl welliannau ac fe aeth y Mesur i'w derfyn heb i ni drafod dros 80 o welliannau.

A hynny er gwaethaf y ffaith bod y Llywodraeth ei hun wedi dod a dwsinau o welliannau gerbron – yn dangos bod yna ddiffygion ac angen gwella ar y

Mesur. Dyna ydi canlyniad moderneiddio - cryfhau'r Corff Gweithredol a gwanhau'r Ddeddfwriaeth.

Mae'r Tŷ'r Cyffredin wedi ei danseilio'n ddifrifol ac mae erydu pwerau'r Tŷ yn annemocrataidd ac yn cwestiynu hygrededd y Senedd. Yn bwysicach, mae'n tanseilio priod waith y Senedd i graffu ar y Gweinidogaethau ac i newid, altro a gwella deddfau.
Mae'r sefyllfa yn ddifrifol ac mae Gordon Brown yn dweud ei fod am gryfhau Tŷ'r Cyffredin – gawn ni weld! Yn y cyfamser, toes yna yr un Aelod yn cael mwy o amser efo'i deulu neu efo'i theulu – hyd yn oed Aelodau Llundain. Dyna "foderneiddio" i chi.

Fy mhryder mawr i ydi ansawdd y cyfreithiau newydd a'r ffordd y mae cymdeithas ar ei cholled o'r herwydd.

Dwy flynedd yn ol dywedodd Richard Thomas, y Comisiynydd Gwybodaeth, ein bod yn cerdded yn ein cwsg i mewn i ryw gymdeithas oll bresennol. Son am gamerâu CCTV ydoedd a'r gymhariaeth fyddai "1984" George Orwell. Ond yn ddiweddar mae Ian Redhead, Is-Brif Gwnstabl Heddlu Hampshire, wedi dweud nad yw Aelodau Seneddol yn sylweddoli bod angen dadl ar hyn. Rydym, meddai, "yn cerdded yn ein cwsg trwy lobiau'r Senedd tra y mae Prydain yn llithro tuag at Reolaeth Awdurdodaidd".

Daw hyn â fi yn ôl at gychwyn yr araith hon, sef y berthynas rhwng y gyfraith a'r Senedd. Credaf mai ein lle ni fel cyfreithwyr a gwleidyddion yw i godi y ddadl hon yn aml, ac i godi ein lleisiau er mwyn sicrhau ein bod ni i gyd yn y gymdeithas yn deffro o'r trwm gwsg yma cyn iddi fynd yn rhy hwyr.